

**Ellis Cooper BSc. (Hons)**  
**Dirprwy Brif Weithredwr**  
**Deputy Chief Executive**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell,  
Merthyr Tudful, CF47 8AN

Merthyr Tydfil County Borough Council  
Civic Centre, Castle Street,  
Merthyr Tydfil, CF47 8AN

Ffôn/Tel: **(01685) 725000**  
Ffacs/Fax: **(01685) 722146**  
[www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

**Croesawn alwadau yn y Gymraeg**  
**We welcome calls in Welsh**

Dyddiad/Date: 19<sup>th</sup> Ionawr 2018

Ein Cyf./Our ref:  
Eich Cyf./Your ref:

Gofynnwch am/Please ask for:  
Llinell Uniongyrchol/Direct Line:  
e-bost/e-mail:

Annwyl Riant / Gofalwr,

## **Darpariaeth Trafnidiaeth Ôl-16 i'r Coleg / Ysgol**

### **Ymgynghoriad Cyhoeddus.**

Ar 13 Rhagfyr 2017 cymeradwyodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful argymhelliad i gynnal ymarferiad ymgynghori cyhoeddus ar newidiadau posib i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr Ôl-16 ym Merthyr Tudful gyda'r bwriad o archwilio arbedion effeithlonrwydd posibl. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg am 12 wythnos o ddydd Llun 22 Ionawr 2018 i ddydd Llun 16 Ebrill 2018.

### **Pam mae angen inni wneud arbedion effeithlonrwydd?**

O ganlyniad i fesurau llymder parhaus mae'r Cyngor wedi gweld gostyngiad yn ei gyllideb graidd ar gyfer 2018/19 tra'n disgwyl toriadau pellach yn y blynyddoedd i ddod.

### **Pam ydym ni'n edrych ar Gludiant Ôl-16?**

Mae darparu cludiant ôl-16 am ddim yn wasanaeth dewisol nad yw'n ofynnol i'r Cyngor ei ddarparu yn gyfreithiol.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion ôl-16 sy'n mynychu'r colegau / ysgolion canlynol;  
Coleg Y Cymoedd (Aberdâr, Ystrad Mynach a Nantgarw), Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, Coleg Merthyr Tudful, Ysgol Gyfun Rhydywaun, Ysgol Lewis Pengam, Ysgol Gyfun Merched Lewis, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Ysgol Eglwys Bedyddwyr Sant Ioan yng Nghymru ac Ysgol Gatholig Cardinal Newman .

Mae cost y gwasanaeth hwn oddeutu £ 189,751.

Rydym yn ystyried opsiynau i leihau'r costau hyn o ddarparu trafndiaeth ôl-16 ac rydym am i'ch barn chi ar y ffyrdd y gellid gwneud hyn a beth fyddai'r effaith.

---

**Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.**

**We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.**

Wrth ystyried gwneud unrhyw newidiadau, mae'n hollbwysig ein bod yn ceisio barn y disgyblion, rhieni / gofawyr, ysgolion / colegau, trigolion Merthyr Tudful a rhanddeiliaid allweddol eraill ar unrhyw newidiadau arfaethedig a hefyd i ofyn am unrhyw gynigion eraill nad ydynt wedi'u hystyried eto.

Bydd y rhanddeiliaid i gyd yn gallu cyfrannu at yr ymgynghoriad ar-lein trwy hyb Ymgynghori Cwm Taf yn [www.cwmtafhub.co.uk](http://www.cwmtafhub.co.uk) a [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk). Fel arall, gellir cael copïau papur o'r ymgynghoriad oddi wrth [corporatecommunications@merthyr.gov.uk](mailto:corporatecommunications@merthyr.gov.uk)

Bydd nifer o sesiynau galw heibio hefyd yn cael eu cynnal ar y cyd â'r ymgynghoriad ar-lein a bydd y rhain yn digwydd yn y lleoliadau canlynol:

Y Coleg, Merthyr Tudful ddydd Mercher 31 Ionawr o 4pm - 7pm.

Clwb Rygbi Bedlinog ar ddydd Mercher 28ain Chwefror o 4pm - 7pm.

Theatr Soar ddydd Iau 22 Mawrth o 4pm - 7pm.

Gofynnir hefyd i ysgolion uwchradd gyfrannu barn disgyblion trwy eu cynghorau ysgol neu fforymau priodol eraill a bydd y Cyngor yn cysylltu yn uniongyrchol ag ysgolion ynglŷn â hyn.

Ar ôl cwblhau'r ymarfer ymgynghori, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor a fydd yn penderfynu a oes unrhyw newidiadau arfaethedig yn narpariaeth y gwasanaeth hwn.

Bydd copi o'r adroddiad ymgynghori terfynol hefyd ar gael i'r cyhoedd.

Yr eiddoch yn gywir

Alyn Owen  
Prif Swyddog Adfywio Cymunedol

Sue Walker  
Prif Swyddog Dysgu

---

**Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.**

**We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.**